Cofrestrfa Tir
Cyfarwyddyd Cyhoeddus 15
Mehefin 2008

Deddf Cofrestru Tir 2002
Cwmpas y cyfarwyddyd hwn
Mae'r cyfarwyddyd hwn yn egluro eich hawl i geisio a chael gwybodaeth o'r Gofrestrfa Tir dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Eich hawliau dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Diweddariad – Mae'r cyfarwyddyd hwn yn disodli argraffiad Ebrill 2007. Newidiwyd adrannau 9 ac 11 i ddiweddaru manylion personél.

Manylion cyswllt

Ar gyfer ymholiadau cyffredinol ac i gael y cyhoeddiad hwn ar ffurf wahanol, cysylltwch a Cefnogaeth i Gwsmeriaid ar customersupport@landregistry.gsi.gov.uk
neu
ffoniwch 0844 892 1111
neu
0844 892 1122 am wasanaeth Cymraeg o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8am a 6pm.

Cost galwadau yw 3c y funed o linellau tir BT. Gall cost alwadau symudol a rhwydweithiau eraill amrywio. Nid yw'r Gofrestrfa Tir yn cael unrhyw gyllid o'r galwadau hyn.

I gael copïau o hwn a'n holl gyfarwyddiadau eraill, am ddi-dâl:
- darllenwch/llwythwch y cyfarwyddiadau i lawr yn Gymraeg ac yn Saesneg o www.cofrestfratir.gov.uk
- cysylltwch â Cefnogaeth i Gwsmeriaid

1 Byrfoddau

'DRhG 2000' yw Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000;
'DCT 2002' yw Deddf Cofrestru Tir 2002;
'RhCT 2003' yw Rheolau Cofrestru Tir 2003.

2 Cyflwyniad

Prif effaith DRhG 2000 yw gwneud awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr yn fwy agored. Mae'r term 'awdurdod cyhoeddus' yn cynnwys adrannau'r llywodraeth (gyda'r Gofrestrfa Tir yn un ohonynt), awdurdodau lleol, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a'r Senedd.

Ar 1 Ionawr 2005, daeth prif ddarpariaethau DRhG 2000 i rym. Mae gan bawb yr hawl bellach i ofyn awdurdod cyhoeddus am wybodaeth ac, os yw'r wybodaeth gan yr awdurdod hwnnw, i fynnu ei fod yn ei datgelu, oni bai fod rhesymau sy'n cyfiawnhau peidio â gwneud hyn.

Dan ddarpariaethau hawl mynediad DRhG 2000:
— rhaid i gais fod yn ysgrifenedig (gan gynnwys ebost neu ffacs) a rhaid iddo gynnwys enw a chyfeiriad ar gyfer anfon yr ateb
— nid yw'r cais yn gorfod crybwyll DRhG 2000
— mae modd gwneud y cais i unrhyw ran o'r awdurdod cyhoeddus
— rhaid i'r awdurdod ateb o fewn 20 diwrnod gwaith
— mae'n ddyletswydd ar yr awdurdod i roi cymorth i'r ceisydd
— gall yr awdurdod godi tâl am ddarparu'r wybodaeth.

3 Pa wybodaeth allaf i ofyn i'r Gofrestrfa Tir amdani?

Prif ddiben y Gofrestrfa Tir yw cynnal cofrestr tir yng Nghymru a Lloegr. Bu'r gofrestr ar agor i archwiliad cyhoeddus ers mis Rhagfyr 1990. Gallwch archwilio unrhyw un o'r 22 miliwn cofrestr a ddaliwn ar hyn o bryd a chael copïau swyddogol ohonynt ac unrhyw ddogfennau perthnasol i'r gofrestr honno sydd ar gael fel hawl dan DCT 2002 a RhCT 2003. Sylwch fod tâl am y gwasanaeth hwn. Lle bo gwybodaeth ar gael fel hawl, byddwn yn gofyn i chi lenwi'r ffurflen briodol dan RhCT 2003 – gwelwch Gyfarwyddyd Cyhoeddus *1 – Cyfarwyddyd i'r wybodaeth rydym yn ei chadw a sut y gallwch ei chael* i

gael manylion y math o wybodaeth sydd gennym a chopïau o'r ffurflenni i'w defnyddio. RhCT 2003 yn hytrach na DRhG 2000 fydd yn llywodraethu gwybodaeth sydd ar gael fel hawl ac yn cael ei cheisio o'r Gofrestrfa Tir. Mae hyn oherwydd bod adran 21, DRhG 2000 yn eithrio gwybodaeth rhag DRhG 2000 pan fo "ar gael o fewn rheswm trwy ddulliau eraill". Oherwydd hyn rydym yn hawlio eithriad dan adran 21 gan fod y wybodaeth eisoes ar gael trwy ein rheolau.

4 Rydym hefyd yn dal gwybodaeth arall sydd heb fod ar gael fel hawl. Gallwch wneud cais DRhG 2000 am unrhyw ran o'r wybodaeth hon.

Nid oes dim byd yn DRhG 2000 i atal y Gofrestrfa Tir rhag rhyddhau gwybodaeth arall os bydd yn dewis gwneud hynny ond mae amrywiaeth o eithriadau yn y Ddeddf honno sy'n caniatáu i'r Gofrestrfa atal gwybodaeth arbennig. Mae'r rhan fwyaf o'r eithriadau'n agored i brawf lles y cyhoedd – mewn geiriau eraill, a fyddai datgelu yn fwy er lles y cyhoedd na chynnal yr eithriad? Fodd bynnag, mae ychydig o eithriadau lle nad oes angen defnyddio'r prawf – er enghraifft lle byddai'r wybodaeth yn gwneud drwg i ddiogelwch y wlad.

5 Cynllun cyhoeddiadau

Mae'n ofyniad DRhG 2000 bod holl awdurdodau cyhoeddus yn mabwysiadu a chynnal cynllun cyhoeddiadau. Mae ein cynllun yn nodi dosbarthiadau gwybodaeth sydd ar gael oddi wrth y Gofrestrfa Tir, neu y bwriedir iddynt fod ar gael, yn ôl yr arfer. Mae hefyd yn trafod sut mae cael y wybodaeth honno (er enghraifft, ar y rhyngrwyd) ac a fydd gwybodaeth yn cael ei darparu am ddim neu am dâl.

Nid yw ceisiadau am wybodaeth sydd ar gael trwy'r cynllun yn cael eu hystyried yn geisiadau DRhG 2000 oherwydd bod y wybodaeth eisoes ar gael o fewn rheswm trwy ddulliau eraill. Mae cynllun cyhoeddiadau'r Gofrestrfa Tir i'w gael ar ein gwefan www.cofrestrfatir.gov.uk neu mae ar gael fel copi caled trwy gysylltu â Swyddog y Cynllun Cyhoeddiadau (gwelwch adran *11 Gwybodaeth gyffredinol* i gael manylion cysylltu).

6 Felly, beth yw cais DRhG?

Er bod llawer o'r wybodaeth sydd gan y Gofrestrfa Tir eisoes ar gael fel mater o drefn, naill ai dan DCT 2002 a RhCT 2003 neu trwy'r cynllun cyhoeddiadau, nid yw hyn yn eich atal rhag defnyddio'ch hawl gyfreithiol dan DRhG 2000 i holi a yw'r Gofrestrfa Tir yn dal gwybodaeth arall y gallai fod ei hangen arnoch. Gwelwch adran *3 Pa wybodaeth allaf i ofyn i'r Gofrestrfa Tir amdani?* am beth i'w wneud lle bo'r wybodaeth ar gael fel hawl dan RhCT 2003.

7 Gwneud cais am wybodaeth

Os yw eich cais am wybodaeth sydd ar gael fel hawl dan ddeddfwriaeth cofrestru tir, copi swyddogol o'r gofrestr er enghraifft, dylech gysylltu â swyddfa leol y Gofrestrfa Tir yn y lle cyntaf. Mae cyfarwyddyd ar ba wybodaeth sydd ar gael a sut i'w chael yng Nghyfarwyddyd Cyhoeddus *1 – Cyfarwyddyd i'r wybodaeth rydym yn ei chadw a sut y gallwch ei chael*. Gallwch wneud eich cais yn ysgrifenedig neu trwy ymweld ag un o'n swyddfeydd. Os ydych yn bwriadu ymweld ag un o'n swyddfeydd, rydym yn eich cynghori'n gryf i ffonio ymlaen llaw fel y gallwn sicrhau bod y ffeiliau sydd eu hangen ar gael pan fyddwch yn ymweld.

Os yw'r wybodaeth sydd arnoch ei hangen o fewn un o'r dosbarthiadau yn y cynllun cyhoeddiadau, gallwch ofyn amdani o unrhyw swyddfa leol neu oddi wrth Swyddog y Cynllun Cyhoeddiadau (gwelwch adran *11 Gwybodaeth gyffredinol* i gael manylion cysylltu). Eto nid oes angen i chi wneud cais ysgrifenedig am y wybodaeth hon.

Os nad yw'n ymddangos bod y wybodaeth a geisiwch ar gael yn rhwydd, yna mae angen i chi wneud cais ysgrifenedig (trwy lythyr, ebost neu ffacs) dan DRhG 2000. Gallwch anfon hwn i unrhyw un o swyddfeydd y Gofrestrfa Tir neu at y Swyddog Rhyddid Gwybodaeth (gwelwch adran *11 Gwybodaeth gyffredinol* i gael manylion cysylltu).

8 Beth wnaiff y Gofrestrfa Tir ar ôl derbyn fy nghais DRhG 2000?

Byddwn yn ateb eich cais cyn pen 20 diwrnod gwaith wedi'i dderbyn, er efallai y bydd angen gofyn i chi am ragor o fanylion i gynorthwyo dewis y wybodaeth a fynnwch. Mewn rhai achosion gallwn hefyd ofyn i chi i dalu ffi am y wybodaeth a geisiwch. Os nad ydych yn dymuno talu'r ffi hon, gallwch dynnu'ch cais yn ôl. Pan atebwn byddwn yn dweud a ydym yn dal y wybodaeth a fynnwch ac, yn y rhan fwyaf o achosion, yn darparu'r wybodaeth honno hefyd.

Fodd bynnag, mae DRhG 2000 yn cynnwys rhai eithriadau i'ch hawl gyfreithiol i gael y wybodaeth ac efallai y byddwn yn gorfod ystyried y rhain.

Lle teimlwn nad oes modd darparu'r wybodaeth a fynnwch oherwydd eithriad yn DRhG 2000, byddwn yn ysgrifennu atoch yn cadarnhau pa eithriad a gredwn sy'n berthnasol a, lle bo'r penderfyniad i ryddhau neu atal y wybodaeth yn gofyn i ni ddefnyddio prawf 'lles y cyhoedd' (gwelwch adran *4 Rydym hefyd yn dal gwybodaeth arall sydd heb fod ar gael fel hawl. Gallwch wneud cais DRhG 2000 am unrhyw ran o'r wybodaeth hon)*, sut y daethom i'r penderfyniad na ddylid darparu'r wybodaeth.

Os na allwn ddarparu'r wybodaeth a fynnwch o fewn 20 diwrnod gwaith, byddwn yn eich hysbysu ymlaen llaw ac yn rhoi amcangyfrif i chi o'r amser y mae'n debygol o'i gymryd i ddelio â'ch cais.

9 Beth os nad wyf yn fodlon ar ymateb y Gofrestrfa Tir i'm cais dan DRhG 2000?

Os byddwch yn teimlo nad yw'r Gofrestrfa Tir wedi ateb eich cais yn unol â darpariaethau DRhG 2000, gallwch ysgrifennu at Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol Corfforaethol (gwelwch adran *11 Gwybodaeth gyffredinol* i gael manylion cysylltu) a fydd yn cynnal adolygiad mewnol ac yn eich ateb o fewn 20 diwrnod gwaith. Os na chawsoch eich bodloni wedyn, gallwch ysgrifennu at y Comisiynydd Gwybodaeth (gwelwch adran *11 Gwybodaeth gyffredinol* i gael manylion cysylltu) sydd â'r grym, dan DRhG 2000, i ymchwilio i'r gŵyn a phenderfynu a ddylai'r wybodaeth y gofynnwyd amdani fod ar gael.

10 Sut mae DRhG 2000 yn effeithio ar unrhyw wybodaeth bersonol sydd gan y Gofrestrfa Tir amdanaf?

Nid yw darpariaethau DRhG 2000 yn effeithio ar eich hawliau fel

'gwrthrych data' dan Ddeddf Gwarchod Data 1998. Dan adran 40, DRhG 2000, eithriwyd awdurdodau cyhoeddus, yn gyffredinol, rhag y ddyletswydd i ddangos data personol.

Dan adran 40(1), DRhG 2000, caiff holl geisiadau am ddata personol oddi wrth y 'gwrthrych data' eu sianelu trwy'r trefnau hawl mynediad sy'n cael eu disgrifio yn Adran 7 Deddf Gwarchod Data 1998. I gael rhagor o fanylion ar y pwnc, gwelwch Gyfarwyddyd Cyhoeddus *5 – Eich hawliau dan Ddeddf Gwarchod Data 1998*.

11 Gwybodaeth gyffredinol
Mae manylion cysylltu'r amrywiol bobl y cyfeiriwyd atynt yn y cyfarwyddyd fel a ganlyn.

Swyddog y Cynllun Cyhoeddiadau
Prif Swyddfa'r Gofrestrfa Tir
Lincoln's Inn Fields
Llundain WC2A 3PH
(DX1098 London/Chancery Lane)
ebost: publication.scheme
@landregistry.gsi.gov.uk

Swyddog Rhyddid Gwybodaeth
Prif Swyddfa'r Gofrestrfa Tir
Lincoln's Inn Fields
Llundain WC2A 3PH
(DX1098 London/Chancery Lane)
ebost: foi@landregistry.gsi.gov.uk

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol Corfforaethol
Prif Swyddfa'r Gofrestrfa Tir
Lincoln's Inn Fields
Llundain WC2A 3PH
(DX1098 London/Chancery Lane)
ebost:
CLSLawyers@landregistry.gsi.gov.uk

Swyddog Gwarchod Data
Prif Swyddfa'r Gofrestrfa Tir
Lincoln's Inn Fields
Llundain WC2A 3PH
(DX1098 London/Chancery Lane)
ebost: dataprotection
@landregistry.gsi.gov.uk

Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Sir Gaer SK9 5AF
ffôn: 01625 545 700
ebost: mail@ico.gsi.gov.uk

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu sylwadau cyffredinol gallwch eu hanfon trwy ebost i foi@landregistry.gsi.gov.uk

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynghylch ein cyfarwyddiadau, cofiwch eu hanfon at:

Grŵp Newid Cofrestru
Cofrestrfa Tir
Lincoln's Inn Fields
Llundain WC2A 3PH
(DX1098 London/
Chancery Lane)

Polisi ymgynghorol y Gofrestrfa Tir

Rydym yn cynnig cyngor i'n cwsmeriaid trwy gyfrwng ein cyhoeddiadau a gwasanaethau ymholiadau a thrwy'r gwaith beunyddiol o brosesu ceisiadau.

Rydym yn darparu gwybodaeth ffeithiol, gan gynnwys copïau swyddogol o gofrestri, cynlluniau teitl a dogfennau, chwiliadau a manylion am ein ffurflenni a ffïoedd.

Rydym yn cynnig cyngor ynglŷn â'n trefnau sy'n esbonio sut mae'r system o gofrestru tir yn gweithio a sut i gyflwyno ceisiadau sy'n gywir. Mae hyn yn cynnwys:
— cyngor cyn cyflwyno cais, lle mae'r ceisydd yn gofyn amdano
— lle bo cais yn ddiffygiol, cyngor ynglŷn â natur y broblem a beth y gellir ei wneud, os rhywbeth, i'w hunioni
— gwasanaeth cymeradwyo cynlluniau ystad a dogfennau cofrestru tir penodol eraill.

Mae'r cyngor y gallwn ei ddarparu yn gyfyngedig. Ni fyddwn yn darparu cyngor cyfreithiol.

Mae hyn yn golygu:
— na fyddwn yn cymeradwyo'r dystiolaeth i'w chyflwyno i gefnogi cais i gofrestru cyn inni dderbyn y cais
— na fyddwn yn cynnig cyngor ynglŷn â pha gamau y dylech eu cymryd oni bai ei fod yn berthnasol i'n trefnau
— na fyddwn yn cymeradwyo ymgynghorydd proffesiynol ond gallwn esbonio sut y gallwch ddod o hyd i un.

Rydym yn darparu cyngor am geisiadau go iawn yn unig, nid am amgylchiadau damcaniaethol. Ni fyddwn yn mynegi barn am faterion lle bo'r gyfraith yn gymhleth neu'n aneglur oni bai bod y cwestiwn yn berthnasol i gais i gofrestru sy'n cael ei brosesu.

Wrth ddarparu'r wybodaeth ffeithiol hon a chyngor ynglŷn â'n trefnau byddwn yn:
— ymddwyn yn ddiduedd
— cydnabod y gall ein geiriau effeithio ar eraill
— osgoi creu gwrthdaro rhwng buddion.

Gwybodaeth yn y cyfarwyddyd hwn
Darparu cyfarwyddyd cyffredinol am drefnau a pholisïau'r Gofrestrfa Tir yw diben y wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn. Fe'i bwriedir fel canllaw yn unig ac nid yw'n ymdrin â phob sefyllfa a all godi. Nid yw chwaith yn cyfyngu ar allu'r Gofrestrfa Tir i weithredu fel y gwêl yn dda, pan fo'n briodol gwneud hynny, o fewn y ddeddfwriaeth cofrestru tir.

Peter Collis
Prif Gofrestrydd Tir

© Hawlfraint y Goron 2008 Cofrestrfa Tir
Nid yw i gael ei atgynhyrchu heb ganiatâd Yr Uned Ffurflenni, Cofrestrfa Tir (yn ôl awdurdod dirprwyedig Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi), Lincoln's Inn Fields, Llundain WC2A 3PH

Dyluniwyd a chynhyrchwyd gan:
Cofrestrfa Tir, Cyhoeddi Corfforaethol y Brif Swyddfa, Lincoln's Inn Fields, Llundain WC2A 3PH